Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol

DIOGELWCH - GWYBODAETH BERSONOL

Ffurflen asesiad ariannol ar gyfer Plentyn dan 16

CLSMODD4

Dim ond os yw'r ymgeisydd am arian cyhoeddus yn iau nag 16 y dylech lenwi'r ffurflen hon

Darllenwch y cwestiynau'n ofalus cyn llenwi'r ffurflen hon. Rhaid i'r ffurflen hon gael ei llofnodi gan gyfaill ymgyfreithio neu warcheidwad ad litem yr ymgeisydd ifanc neu gyfreithiwr yr ymgeisydd ifanc lle bydd gan y plentyn hawl i gynnal yr achos heb gyfaill ymgyfreithio neu warcheidwad ad litem.

1. Nodwch:

Enw'r ymgeisydd ifanc: _____

Dyddiad geni'r ymgeisydd ifanc: ____/____/____

Eich enw: _____

Eich cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth: _____

_____ Cod post _____

Eich perthynas â'r ymgeisydd ifanc: _____

2. Ydy'r plentyn hwn yn derbyn unrhyw arian yn rheolaidd?

4 Peidiwch â chynnwys unrhyw enillion rhan amser, swyddi yn ystod y gwyliau, arian poced nac unrhyw daliadau cynhaliaeth rydych chi'n eu cael ar gyfer y plentyn.

☐ Nac ydy: ewch ymlaen i gwestiwn 3

☐ Ydy: Peidiwch â llenwi'r ffurflen hon. Yn hytrach, llenwch ffurflen CLSMODD 1

3. Oes gan y plentyn unrhyw gynilion, eitemau o werth neu fuddsoddiadau ag iddynt gyfanswm o £2,500 neu fwy o werth, neu a yw ef neu hi i dderbyn arian o gronfa ymddiriedolaeth neu ewyllys?

☐ Nac oes: Llofnodwch a dyddiwch y ffurflen hon

☐ Oes: Peidiwch â llenwi'r ffurflen hon. Yn hytrach, llenwch ffurflen CLSMODD 1

Deddf Diogelu Data - mynediad at wybodaeth bersonol

Caiff y wybodaeth bersonol a roddir gennych chi ei phrosesu yn unol ag egwyddorion Deddf Diogelu Data 1998 ac at ddibenion swyddogaethau'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol o dan Ddeddf Mynediad at Gyfiawnder 1999. Mae gennych yr hawl i wneud cais ysgrifenedig ffurfiol am fynediad at ddata personol a ddelir amdanoch i'w harolygu a'u cywiro os ydyw'n anghywir. Gall y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol dderbyn gwybodaeth amdanoch gan drydydd partïon penodol, neu roi gwybodaeth iddyn nhw; mae'r trydydd partïon hyn yn cynnwys rhai o adrannau'r llywodraeth. Fodd bynnag, ni fyddwn yn datgelu gwybodaeth amdanoch oni bai bo'r gyfraith yn ein caniatáu i wneud hynny.

Os darperir gwybodaeth ffug neu anghywir ac y canfyddir twyll, fe drosglwyddir y manylion i asiantaethau atal twyll a gwyngalchu arian. Ar wefan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol gellir canfod manylion pellach sy'n egluro sut y gellir defnyddio'r wybodaeth a ddelir gan yr asiantaethau atal twyll: http://www.legalservices.gov.uk/cymru.asp

 (h) Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol

A: Datganiad ac awdurdod

I'w lofnodi gan berson sy'n gweithredu ar ran plentyn mewn cymhwyster nad yw'n broffesiynol, e.e. rhiant, ffrind neu berthynas, yn unig. Os ydych yn gwneud datganiad ffug yn bwrpasol, gellir eich erlyn.

4 Rwy'n datgan bod y wybodaeth a roddais ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn.

4 Rwy'n deall os nad yw'r wybodaeth yn gywir neu'n gyflawn y gellir cymryd camau troseddol a/neu sifil yn fy erbyn.

4 Rwy'n rhoi fy nghaniatâd i'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol wneud unrhyw ymholiadau i drydydd partïon, ac rwy'n awdurdodi'r trydydd partïon hynny i roi unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol i ymdrin â hyn.

Llofnod: _____ Dyddiad: ____/_____/____

B: Datganiad ac awdurdod gan warcheidwad proffesiynol ad litem neu gyfreithiwr sy'n gweithredu ar ran plentyn

I'w lofnodi gan gyfreithiwr neu warcheidwad proffesiynol ad litem a benodir gan y llys sy'n gweithredu ar ran plentyn yn unig.

4 Rwy'n datgan, hyd y gwn i, bod y wybodaeth a roddais yn wir, ar sail yr ymholiadau rhesymol yr wyf wedi gallu eu gwneud, gyda dyledus ofal ac ymroddiad.

Llofnod: _____ Dyddiad: ____/_____/____
(Gwarcheidwad proffesiynol ad litem neu gyfreithiwr)